awen Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Cultural Trust

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent County Borough Council

CHWARTER 4

ADRODDIAD PERFFORMIAD

ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

2025-26

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi gweithgareddau a gyflawnwyd gan Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen yn ystod **Chwarter 4** 2025/26 i gefnogi Amcanion Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Mae'n cynnwys crynodeb o bob maes gwasanaeth, yn ogystal â rhai astudiaethau achos ac adborth cwsmeriaid sy'n helpu i ddangos effaith.

Y MET

Yn ystod Chwarter 4, parhaodd Y Met i chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu profiadau diwylliannol o ansawdd uchel, cynhwysol a hygyrch i gymunedau Blaenau Gwent a thu hwnt.

Adlewyrchodd ein rhaglen ymrwymiad cryf i gynhwysiant cymdeithasol, llesiant cymunedol a chyfranogiad, yn enwedig i gynulleidfaoedd a allai fel arall wynebu rhwystrau i ymgysylltu â'r celfyddydau. Gellir gweld hyn yn y mapiau cwsmeriaid isod ac yn y defnydd cynyddol o gynllun Hynt, sy'n rhoi mynediad am ddim i ofalwyr i leoliadau celfyddydau a pherfformio.

Un ffocws allweddol y chwarter hwn oedd ein dangosiadau ffilmiau misol hamddenol a sesiynau canu Alawon Aur, a greodd fannau croesawgar a chefnogol i bobl sy'n byw gyda dementia ac oedolion ag anableddau corfforol a/neu synhwyraidd dwys a lluosog. Aeth preswylwyr o leoliadau gofal i'r sesiynau hyn, gan gynnwys Cartref Gofal Cwrt Mytton yn Abertyleri, a Chanolfan Bert Denning a Lakeview ym Mryn-mawr drwy ddarpariaeth gwasanaeth dydd Opsiynau Cymunedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Roedd llwyddiant y digwyddiadau hyn yn amlwg ym mwynhad ac ymgysylltiad gweladwy'r cyfranogwyr, ochr yn ochr ag adborth cadarnhaol cyson gan weithwyr cymorth a rheolwyr cartrefi gofal, a amlygodd effaith y digwyddiadau ar lesiant a chysylltiad cymdeithasol.

Cryfhawyd mynediad cymunedol ymhellach drwy ein rhaglen reolaidd o ddigwyddiadau Cerddoriaeth Am Ddim Dydd Gwener, a barhaodd i ddenu cynulleidfa ffyddlon. Drwy gael gwared ar gost fel rhwystr, roedd y digwyddiadau hyn yn ystod y dydd yn galluogi teuluoedd, trigolion hŷn a'r rhai o gartrefi incwm is i fwynhau cerddoriaeth fyw mewn amgylchedd cyfeillgar a diogel. Gwnaeth ansawdd y perfformwyr a'r awyrgylch hamddenol annog pobl i ddod – pobl na fyddent fel arfer yn ymwneud â digwyddiadau celfyddydol – gan helpu i leihau ynysigrwydd cymdeithasol a chreu profiadau a rennir.

Mae cerddoriaeth fyw yn parhau i fod yn gonglfaen i gynnig Y Met. Y chwarter hwn, gwnaethom atgyfnerthu ein henw da am ddarparu digwyddiadau cerddoriaeth o ansawdd uchel am brisiau fforddiadwy, gan sicrhau bod perfformiadau byw yn parhau i fod yn hygyrch. Denodd y bandiau teyrnged poblogaidd Nothing but a Good Time a Kast Off Kinks (yn cynnwys aelodau gwreiddiol y band) gynulleidfaoedd o bob cwr o Flaenau Gwent, De Cymru a rhannau o Loegr (gweler y map isod). Mae poblogrwydd y digwyddiadau hyn yn dangos gwerth darparu profiadau diwylliannol proffesiynol i gynulleidfaoedd lleol nad ydynt am deithio'n bell na thalu prisiau premiwm.

Parhaodd Y Met â'i gefnogaeth hirdymor i grwpiau theatr amatur ac ieuenctid lleol, gan ddarparu cyfleoedd i berfformio ar lwyfan proffesiynol. Cafodd cynhyrchiad Now Wait a Minute gan Theatre Adhoc, a ysgrifennwyd gan Julia Lewis o Abertyleri, a chynhyrchiad Cymdeithas Drama Gerddorol Ieuenctid Abertyleri o Annie Jr. nifer da yn bresennol o'r gymuned. Nid yn unig y gwnaeth y cynyrchiadau hyn ddiddanu cynulleidfaoedd lleol ond roeddent hefyd yn cyd-fynd ag ymrwymiad strategol Awen i ehangu cyfranogiad, ysbrydoli perfformwyr newydd, a datblygu sgiliau creadigol.

Mewn partneriaeth, cydweithiodd Y Met â Rheolwr Canol Tref Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i gynnal digwyddiad profiad anifeiliaid ar raddfa fawr, a ddenodd dros 400 o bobl. Cynigiodd y digwyddiad rhyngweithiol hwn brofiadau dysgu ymarferol gydag anifeiliaid, gan gynnwys nadroedd, pryfed cop a swricatiaid; gan helpu plant a theuluoedd i ddatblygu dealltwriaeth o ymddygiad anifeiliaid, lles ac ymwybyddiaeth o gadwraeth wrth ddenu nifer sylweddol o ymwelwyr i ganol tref Abertyleri. Mae llwyddiant y digwyddiad wedi arwain at gynlluniau ar gyfer gweithgareddau cydweithredol pellach drwy gydol y flwyddyn.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae paratoadau ar y gweill i'r Met gynnal yr Ŵyl Roc a'r Blŵs flynyddol, gan barhau â thraddodiad lleol sy'n dyddio'n ôl i Ŵyl Blues Abertyleri a gynhaliwyd am y tro cyntaf yn 2005. Drwy bartneriaeth â Chyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd, bydd y rhaglen hon yn sicrhau bod cerddoriaeth roc a'r blŵs yn parhau i fod yn rhan werthfawr a hygyrch o fywyd diwylliannol yr ardal. Yn ogystal, mae gwaith yn mynd rhagddo i gryfhau perthnasoedd â Champws Dysgu Abertyleri, gan gydnabod pwysigrwydd mynediad cynnar i'r celfyddydau i blant a phobl ifanc ym Mlaenau Gwent, gan gefnogi creadigrwydd, llesiant a chynhwysiant o oedran cynnar.

"Gwych cael lleoliad fel hyn mewn tref fach, adloniant gwych a staff hyfryd."

"Lleoliad hollol brydferth a byddaf yn bendant yn dychwelyd i wylio rhywbeth arall yn y dyfodol."

"Lleoliad gwych, staff gwych, gwerth gwych am arian a noson allan dda yn gyffredinol"

"Mae pob digwyddiad rydw i wedi bod iddo yn Y Met wedi bod yn wych!"

"Artistiaid gwych lleoliad lleol gwych gwerth gwych am arian."

MATTHEW, BLAINA

Pan gerddodd Matthew i mewn i'r Met am y tro cyntaf ar gyfer gweithdai hyfforddi Sgiliau Theatrig a Phyrotechneg Sgiliau Awen, a ariannwyd gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, nid oedd yn siŵr beth i'w ddisgwyl. Roedd bob amser wedi bod yn awyddus i wybod am y theatr, ond roedd camu i mewn i leoliad proffesiynol yn teimlo fel cam mawr.

Daeth y gweithdai yn adeg dyngedfennol i Matthew. Gwnaeth y sesiynau ei annog i leisio ei farn, gweithio mewn tîm ac ymddiried yn ei reddfau. Agorodd yr hyfforddiant pyrotechnegol fyd hollol newydd, ac mae Matthew yn dweud mai dyma'r tro cyntaf iddo deimlo ei fod yn perthyn go iawn i le creadigol. Ni ddiflannodd yr hwb i hyder hwnnw pan ddaeth y cwrs i ben.

Penderfynodd Matthew ymuno ag un o gymunedau theatr lleol, Cymdeithas Drama a Cherddoriaeth Amatur Abertyleri, rhywbeth na ddychmygodd ei wneud erioed cyn y gweithdai hyfforddi. Mae bellach yn paratoi i gamu ar yr un llwyfan lle cychwynnodd ei daith, ar ôl sicrhau rhan fach yng nghynhyrchiad AADMS o *Jekyll & Hyde*, a gynhelir yn Y Met ym mis Mehefin.

Ymddiriedolaeth
Ddiwylliannol
Cultural Trust

Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen
Swyddfeydd y Stablau, Tŷ Bryngarw,
Brynmenyn, Pen-y-Bont, CF32 8UU

Awen Cultural Trust
Stable Offices, Bryngarw House,
Brynmenyn, Bridgend, CF32 8UU

+44 (0) 1656 754825
enquiries@awen-wales.com
www.awen-wales.com

Rhif elusen gofrestredig / Registered charity number: 1166908
Rhif cofrestru TAW / VAT registration number: 224 3341 44
Rhif gofrestredig / Company number: 09610991

Mae Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen wedi'i chofrestru yng Nghymru fel cwmni cyfyngedig drwy warant.
Awen Cultural Trust is registered in Wales as a company limited by guarantee.